Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Harlech**
**Yr Hen Ysgol Gynradd**
**Harlech**
**Gwynedd**
**LL46 2YA**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2013**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2013**

## Cyd-destun

Cafodd Cylch Meithrin Harlech ei sefydlu yn wreiddiol dros dri deg o flynyddoedd yn ôl ar gyfer darparu addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i blant tref Harlech. Wedi iddo orfod cau oherwydd prinder cyllid am gyfnod byr, ail-agorwyd y cylch yn Ionawr 2011 gyda phwyllgor rheoli ac arweinydd newydd. Ym marn y lleoliad, nid yw'r ardal a wasanaethir ganddo naill ai yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, roedd ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore'r wythnos ar gyfer plant dyflwydd a thair oed er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae tri phlentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd. Saesneg yw'r iaith a siaredir gartref gan y rhan fwyaf o'r plant.

Cefnogir addysg y plant gan yr arweinydd a dwy ymarferydd llawn-amser. Mae pob un ohonynt wedi'u cymhwyso'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r prif adeilad yn cynnwys dwy ystafell chwarae helaeth, cegin fechan, toiled ac ystordy. Y tu allan, mae man chwarae caeëdig.

Wedi iddynt orffen eu cyfnod yn y lleoliad, bydd y rhan fwyaf o'r plant yn trosglwyddo i ysgol gynradd Tan Y Castell.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Rhagfyr 2012 a chan Estyn ym Mehefin 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr holl blant yn hapus wrth ddod i'r lleoliad yn y boreau;
- profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau'r plant ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da;
- darpariaeth dda i sicrhau bod plant yn caffael y medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu angenrheidiol;
- ansawdd addysgu ac asesu, ynghyd ag asesu ar gyfer dysgu, yn dda;
- polisïau a threfniadau addas ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant; a'r
- lleoliad yn gymuned hapus a chynhwysol lle caiff plant fynediad cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar eu cyfer.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer datblygiad y lleoliad;
- ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn fel tîm ac yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn;
- trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith;
- y lleoliad yn hunan-arfarnu ac yn archwilio ffyrdd i wella yn barhaus;
- y lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref;
- gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

R1. Cynnwys y pwyllgor rheoli yn nhrefniadau hunan-arfarnu'r lleoliad.

R2. Arfarnu effaith gweithredu blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn fwy manwl.

R3. Cynnwys gwybodaeth am drefniadau diogelu'r lleoliad yn y llyfryn i rieni newydd.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1:  Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles.  Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Trwy gydweithio effeithiol, llwydda'r arweinydd a'r ymarferwyr i gynllunio cwricwlwm sy'n diwallu anghenion a diddordebau plant o'r holl ystod gallu.  Mae hyn yn galluogi pob unigolyn i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen.  Mae'r gweithgareddau ysgogol a hyblyg a gynllunnir yn hyrwyddo ymgyfraniad pob plentyn yn llwyddiannus ac yn sicrhau y cânt rôl weithredol yn eu dysgu.  Trwy gynllunio tymor hir systematig, mae'r lleoliad yn sicrhau, wrth i blant symud trwy'r Cyfnod Sylfaen, bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol.

Mae natur ymarferol a phenagored y profiadau dysgu yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ffurfio perthynas gadarnhaol â'i gilydd ac i feithrin synnwyr o barch a goddefgarwch tuag at eraill.  Caiff plant eu hannog i fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd ac i archwilio eu hamgylchedd yn hyderus a dod yn ddysgwyr annibynnol.  Mae'r profiadau a ddarperir dan do ac yn yr awyr agored yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol ac i gaffael gwell dealltwriaeth o'r byd y maent yn byw ynddo.

Trwy gynllunio gofalus a systematig, sicrha'r lleoliad bod plant yn caffael y medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu angenrheidiol ar gyfer eu galluogi i fanteisio ar eu holl brofiadau dysgu.  Trwy brofiadau ymarferol heriol, caiff plant gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau meddwl ac i datblygu gwahanol strategaethau ar gyfer datrys problemau sydd o bwys iddynt hwy.

Caiff plant eu hannog yn gyson gan ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gymaint ag y bo modd yn eu dysgu ac wrth gyfathrebu gyda phawb arall yn y lleoliad.  Rhoddir bri ar ddathlu traddodiadau Cymreig ac ar godi ymwybyddiaeth plant o'u Cymreictod.

Mae'r cwricwlwm yn helpu plant yn dda i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd cysylltiedig ag addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Caiff plant rôl weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r lleoliad a thrwy weithgareddau symbylol megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, dônt i wybod mwy am y byd ehangach.

**Addysgu:  Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac effaith anghenion dysgu ychwanegol ar ddatblygiad.  Llwyddant i greu amgylchedd ysgogol, heriol a chyffrous y tu mewn a'r tu allan, sy'n annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad yr holl blant.  Cedwir cydbwysedd gofalus rhwng gweithgareddau wedi'u dewis gan y plentyn a gweithgareddau wedi'u harwain gan ymarferwyr.  Caiff yr arferiad o ddilyn plant unigol trwy gymryd rhan yn eu chwarae, ei ddefnyddio'n effeithiol gan ymarferwyr i herio ac ymestyn dealltwriaeth plant unigol ac i symud dysgu yn ei flaen.  Mae ymarferwyr yn disgwyl llawer gan bob plentyn ac yn deall pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a dilyn eu diddordebau eu hunain.  Pan gyfyd achosion prin o ymddygiad anaddas, bydd staff yn ymyrryd mewn ffordd dawel a chadarn.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer asesu cynnydd plant.  Caiff plant eu hasesu ar fynediad i'r lleoliad a chedwir cofnod systematig o'u datblygiad a'u cynnydd ym mhob maes dysgu trwy gydol eu haddysg feithrin.  Gwna ymarferwyr ddefnydd cynyddol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu wrth arsylwi plant ar dasgau a chofnodi eu cynnydd mewn dysgu.  Gwnânt ddefnydd pwrpasol o'r wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio i'r dyfodol.

Mae'r arfer o gynnwys rhieni yn y prosesau asesu yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gynnydd eu plant a'r hyn y gallant ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r holl blant yn hapus wrth ddod i'r lleoliad yn y boreau ac yn gyfforddus wrth fynd at ymarferwyr i ofyn am gymorth ac arweiniad.  Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, maent yn cadw cofnodion manwl o'u hanghenion ac yn sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu bodloni.  Pan fo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad, bydd ymarferwyr yn cydweithio'n glos gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol eraill er mwyn sicrhau darpariaeth briodol.

Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau addas ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant.  Mae'n llwyddo'n dda i helpu pob plentyn i gyflawni iechyd a lles emosiynol a chorfforol da, i fanteisio'n llawn ar y profiadau dysgu a ddarperir ac i gymryd rhan lawn ym mywyd y lleoliad.  Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol os bydd heriau'n codi mewn perthynas â bwlio, ymddygiad annerbyniol neu amheuaeth o gam-drin.

Mae darpariaeth helaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant.  Caiff gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at oedolion a phlant eraill eu hatgyfnerthu'n gyson ac effeithiol trwy bob agwedd ar fywyd a gwaith y lleoliad.

Mae'r trefniadau sefydlu trylwyr, ynghyd â'r berthynas agos gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant newydd yn ymgartrefu'n sydyn yn y lleoliad.  Mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal mawr o bob plentyn ac yn sicrhau eu diogelwch bob amser.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a chynhwysol lle caiff plant fynediad cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda'r lleoliad i greu amgylchedd cartrefol ac ysgogol lle y gall plant fanteisio'n llawn ar eu profiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Cânt eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Caiff yr adnoddau yn yr ardal y tu allan eu defnyddio'n effeithiol i ysgogi chwarae dychmygus a medrau personol a chymdeithasol y plant. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd effeithiol o'r amgylchedd lleol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n llawn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad. Mae'n cyfleu disgwyliadau uchel ac yn cefnogi ac yn herio pawb i ymdrechu orau gallant. Mae ethos cadarnhaol yn treiddio drwy'r lleoliad gyda phlant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn fel tîm, maent yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas ac yn gwneud yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae eu parodrwydd i ymgymryd â blaenoriaethau cenedlaethol a mentrau newydd yn gryfder. Mae nodau a pholisïau clir wedi'u sefydlu sy'n canolbwyntio ar anghenion plant ac yn cael eu gweithredu'n gydwybodol. Mae'r berthynas gyda'r plant a'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu ymdeimlad o gymuned. Mae system rheoli perfformiad addas sy'n helpu staff i werthuso a gwella eu hymarfer ac i adnabod eu hanghenion proffesiynol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn darparu cefnogaeth gref i'r arweinydd, gyda'r swyddogion yn cyflawni eu cyfrifoldeb yn gydwybodol. Mae'r swyddogionyn gwneud yn siŵr bod unrhyw gwynion yn cael eu datrys yn brydlon a bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol statudol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt rôl weithredol yn nhrefniadau hunan-arfarnu'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn llwyddiannus iawn wrth weithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol sydd a wnelont â'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn wedi deillio ar nifer o flaengareddau allweddol ac, yn arbennig, gweithredu dulliau asesu ar gyfer dysgu.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda, a chydag anogaeth yr arweinydd, yn hunan-arfarnu ac yn archwilio ffyrdd i wella yn barhaus.  Mae trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant.  Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol.  Gall ymarferwyr ddangos sut maent, trwy hunan-arfarnu, wedi sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth, ac mewn cynllunio ac asesu yn benodol.

Mae adroddiad hunan-arfarnu’r lleoliad o ansawdd da ac yn nodi'n glir gryfderau'r lleoliad yn ogystal â'r agweddau sydd angen gwelliant pellach. Gwnaeth y lleoliad ddefnydd effeithiol iawn o wybodaeth hunan-arfarnu ar gyfer llunio cynllun datblygu manwl sy'n nodi sut y bwriedir rhoi gwelliannau ar waith.  Er hynny, nid oes trefniadau ar gyfer arfarnu beth fu effaith gweithredu blaenoriaethau’r cynllun ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin.  Mae hyn wedi’u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.  Mae’r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu’n dda fel cymuned ddysgu.  Mae'r ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant.  Mae’r cysylltiadau cryf sydd gyda nifer o sefydliadau'r dref yn cyfoethogi profiadau dysgu plant yn sylweddol.  Mae’r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni ym mhob agwedd o waith y lleoliad trwy eu hysbysu'n rheolaidd am yr holl weithgareddau a’u hannog i gyfranogi yn addysg eu plant.  Er bod y llyfryn gwybodaeth a ddarperir i rieni newydd yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth fuddiol, nid oes cyfeiriad ynddo at drefniadau diogelu plant y lleoliad.

Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol gynradd, ac yn arbennig y trefniadau ar gyfer trosglwyddo plant, yn datblygu’n dda.

Mae ymweliadau, adroddiadau a chyngor proffesiynol cyson athrawes gysylltiol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad.  Mae’r arweinydd hefyd yn derbyn cefnogaeth reolaethol dda gan swyddog datblygu’r Mudiad Meithrin.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda'i gilydd yn dda, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd, os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n dda i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Fe ddefnyddir staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth fanwl o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n hynod o ofalus gan yr arweinydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**
Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer fach o ymatebion a ddaeth i law (llai na 10).

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu / yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |